# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Hydref 2023

Amser: 09.30 - 12.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13526

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mark Isherwood AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid<br>Ken Skates AS, Comisiynydd<br>Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau, Comisiwn y Senedd |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth Rhianon Passmore AS

1.3 Gwnaed datganiad llafar gan Adam Price AS ynghylch ei swydd fel Comisiynydd y Senedd ac oherwydd hyn, ni fyddai’n cymryd rhan mewn trafodion yn ystod y cyfarfod a oedd yn ymwneud â materion y Comisiwn

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Llythyr oddi wrth Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ar Faes Awyr Caerdydd**

**2.2 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

**2.3 Llythyr oddi wrth Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a’r Cyfansoddiad, ar Fferm Gilestone**

**2.4 Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc Comisiwn y Senedd**

## 3 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022-23

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, Comisiynydd y Senedd sy’n gyfrifol am y Gyllideb a Chyllid, Cyfarwyddwr Adnoddau’r Senedd, a Phrif Swyddog Cyllid y Senedd fel rhan o’i waith craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd 2022 -23.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer gweddill y cyfarfod heddiw

4.1 Derbyniwyd y cynnig

## 5 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law – Comisiwn y Senedd

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law

## 6 Briff cyfreithiol ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

6.1 Trafododd y Pwyllgor ganllawiau a ddarparwyd gan dîm Cyfreithiol y Senedd ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

## 7 Sesiynau briffio Archwilio Cymru ar eu hadroddiadau ar Gwm Taf Morgannwg, adroddiad cynllun gweithlu'r GIG ac offeryn data cyllid y GIG.

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod adroddiadau Archwilio Cymru.